PRIFYSGOL CYMRU
Y Drindod Dewi Sant
UNIVERSITY OF WALES
Trinity Saint David

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
Ysgol Cyfiawnder a Chynhwysiant Cymdeithasol

Ymchwil Llywodraeth Cymru

# Adroddiad mewn perthynas â chontract i ddatblygu argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru ar sut gall y sector gwirfoddol ac awdurdodau lleol gydweithio’n fwy effeithiol :rhif contract YW/VOL/003

Rhif contract: YW / VOL / 003.

Cynnwys


| Adran | Rhif Tudalen |
|---|---|
| Cynnwys | 1 |
| Crynodeb Gweithredol | 2 |
| Nodi pa gymorth y mae sefydliadau gwaith ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol a lleol yn ei gael ar hyn o bryd | 2 |
| Tabl 1. Mathau o gymorth i sefydliadau gwaith ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol a lleol | 3 |
| Nodi pa gymorth sydd ei angen ar sefydliadau gwaith ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol a lleol i'w cefnogi fel sefydliad gwaith ieuenctid gwirfoddol | 3 |
| Nodi'r hyn a fyddai'n helpu sefydliadau gwaith ieuenctid gwirfoddol ac awdurdodau lleol i gydweithio'n agosach | 4 |
| A oes unrhyw fylchau? | 5 |
| Yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, beth y gellir ei wneud i sicrhau cydweithio agosach a gwell canlyniadau i bobl ifanc? | 6 |
| Argymhellion. | 7 |
| Tabl 2. Argymhellion ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol ac yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy. | 8 |
| Crynodeb | 10 |
| Atodiad 1 | |
| Atodiad 2 | |


## Crynodeb Gweithredol

Mae nifer o ffynonellau o gymorth ar gael i sefydliadau gwaith ieuenctid gwirfoddol yng Nghymru, gan gynnwys cymorth ariannol, adnoddau, arbenigedd a thrwy rwydweithio. Fodd bynnag, ni welir y mathau hyn o gymorth yn gyson ledled Cymru ac yn ogystal, mae'r ymchwil hon wedi nodi bod yr ystod o gymorth a roddir i sefydliadau lleol dipyn yn fwy na'r cymorth a roddir i sefydliadau cenedlaethol. Mae angen i sefydliadau yn y sector statudol a'r sector gwirfoddol ddatblygu gweledigaeth a rennir ar gyfer yr hyn y mae angen iddynt ei gyflawni i bobl ifanc Cymru. Mae angen iddynt symud y tu hwnt i fuddiannau eu sefydliadau eu hunain a bod yn glir ynglŷn â sut y gallant gydweithio i wella bywydau pobl ifanc. Er bod llawer o elfennau a rennir, er enghraifft ymrwymiad i egwyddorion a gwerthoedd gwaith ieuenctid, fodd bynnag, daw llawer o fylchau i'r amlwg yn y ddarpariaeth. Gellir grwpio'r rhain fel a a ganlyn: cynllunio strategol (ar lefel genedlaethol a lefel awdurdod lleol), materion ariannol, arbenigedd, ac yn bwysig ddigon, cyfnewid gwybodaeth er budd pobl ifanc. Gellid mynd i'r afael â'r materion hyn drwy gydweithredu'n fwy.

**Nodi pa gymorth y mae sefydliadau gwaith ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol a lleol yn ei gael ar hyn o bryd**

Diben yr ymchwil hon oedd ystyried y trefniadau mwyaf priodol i gefnogi'r sector gwaith ieuenctid gwirfoddol y tu hwnt i 2016. Amcangyfrifir bod y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol yn cynnwys 30,000 o wirfoddolwyr sy'n oedolion sy'n gweithio gyda mwy na 250,000 o bobl ifanc (Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol). Cytunodd y Grŵp Cyfeirio Gweinidogol ar Waith Ieuenctid y dylai modelau yn y dyfodol alluogi partneriaid i gydweithio'n agosach a bod angen newid. Mae ein hymchwil wedi nodi bod y neges hon yn cael ei derbyn. Ceir tystiolaeth o gryn dipyn o arfer da o ran sut mae sefydliadau'r sector gwirfoddol a'r sector a gynhelir yn cydweithio i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bobl ifanc a chymunedau.

Mae'r hinsawdd ariannol gynyddol heriol a wynebwyd gan y sector cyhoeddus yn gyffredinol yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi arwain at dirwedd gwaith ieuenctid sy'n newid o hyd. Daeth hyn i'r amlwg o ystyried bod gwariant y sector gwaith ieuenctid a gynhelir wedi gostwng 14 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, yn ôl yr archwiliad o wasanaethau ieuenctid ar gyfer 2014-15 (Ystadegau Cymru). Mae'r cyd-destun ariannol anodd hwn yn gwaethygu o ystyried gostyngiad tebyg yn y gweithlu. Dengys yr archwiliad o waith ieuenctid ostyngiad o 19% yng ngweithlu'r sector statudol rhwng 2012 a 2015 (Ystadegau Cymru).

Er gwaethaf y cyd-destun heriol o fewn y sector (gweler Atodiad 1) mae ein hymchwil wedi dangos bod sefydliadau gwirfoddol cenedlaethol a lleol yn cael amrywiaeth o gymorth o ffynonellau gwahanol, gyda sefydliadau lleol yn cael mwy o amrywiaeth o gymorth na sefydliadau cenedlaethol. Mae sefydliadau cenedlaethol a lleol wedi nodi bod ganddynt ffyrdd gwahanol o weithio a bod angen mathau gwahanol o gymorth arnynt. Mae sefydliadau gwaith ieuenctid cenedlaethol yn cael cymorth Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol, ymhlith eraill, sy'n cydnabod mai gwybodaeth, hyfforddiant a rhwydweithio yw'r prif fathau o gymorth y mae'n eu cynnig i sefydliadau sy'n aelodau. Ar lefel leol, mae awdurdodau lleol yn darparu 2 y cant o'u dyraniad cyllidebol fel cymorth grant o'r gwasanaeth ieuenctid statudol i'r sector gwirfoddol. O gynnwys cyfraniadau o gyllideb ehangach awdurdodau lleol, darparodd awdurdodau lleol bron £1 filiwn mewn cymorth grant i wasanaethau ieuenctid gwirfoddol yng Nghymru yn ystod y flwyddyn (Ystadegau Cymru). Dengys Tabl 1 y mathau o gymorth sydd ar gael i'r sefydliadau gwaith ieuenctid lleol a chenedlaethol.

**Tabl 1. Mathau o gymorth i sefydliadau gwaith ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol a lleol**

| Lleol | Cenedlaethol |
|---|---|
| Gwybodaeth a chyngor gan Gyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol ac mewn rhai achosion y Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol | Grant Sefydliadau Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol |
| Hyfforddiant lefel isel sydd ar gael drwy awdurdodau lleol | Y wybodaeth a'r cyngor a rennir gan Gyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol |
| Cymorth ariannol drwy gael grantiau | Mae sefydliadau gwaith ieuenctid cenedlaethol yn cynnig cymorth gan gymheiriaid |
| Cymorth ariannol drwy wasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol | Cymorth ariannol gan gyrff cyllido |
| Cydweithredu ag awdurdodau lleol | Hyfforddiant drwy Goleg Cymunedol YMCA Cymru |
| Partneriaethau â gwasanaethau ieuenctid lleol | |
| Mae Gwasanaethau Ieuenctid yn cynnig gwybodaeth leol | |
| Adnoddau gwaith ieuenctid a rennir | |
| Mae Gwasanaethau Ieuenctid yn cynnig arbenigedd mewn recriwtio | |
| Cyllid i sefydliadau gyflwyno elfennau o Strategaeth y Gymraeg a rhai elfennau ychwanegol lleol | |
| Mae sefydliadau gwirfoddol lleol yn cael cefnogaeth eu cyrff cenedlaethol. | |
| Mae'n rhaid i gymorth lleol fod yn bwrpasol. Os yw'n rhy ffurfiol gall godi braw ar wirfoddolwyr | |
| Mae gwefannau cyrff cenedlaethol yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth | |
| Mae cyrff cenedlaethol yn cynnig cymwysterau mewnol mewn arweinyddiaeth i grwpiau lleol | |
| Y defnydd o gyfryngau cymdeithasol i roi gwybod am ddigwyddiadau sydd ar y gweill a materion o ddiddordeb | |

Dengys Tabl 1 fod sefydliadau lleol yn cael sawl math o gymorth. Mae'r angen am y mathau hyn o gymorth yn newid dros amser. Ymddengys bod rhai awdurdodau lleol a chynghorau gwirfoddol sirol yn gallu cynnig mathau amrywiol a pherthnasol o gymorth i'w rhwydweithiau lleol yn fwy nag eraill.

**Nodi pa gymorth sydd ei angen ar sefydliadau gwaith ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol a lleol i'w cefnogi fel sefydliad gwaith ieuenctid gwirfoddol**

Mae cyfranogwyr yn dweud eu bod yn ymfalchïo yn eu cyfraniad i roi gwerth i bobl ifanc a chymunedau, gan nodi bod sefydliadau yn y sector gwirfoddol yn awyddus

iawn i weithio mewn partneriaeth a'u bod am wneud cyfraniad gwirioneddol i sicrhau canlyniadau cadarnhaol. Dyna'r brif neges gan y sector gwirfoddol. Ym mhob achos, byddai'r sector yn croesawu cydweitho'n agosach â'r sector a gynhelir.

Bydd y cymorth sydd ei angen ar sefydliadau gwirfoddol lleol a chenedlaethol yn amrywio o bryd i'w gilydd. Mae angen i'r cymorth hwn fod yn bwrpasol, yn hygyrch o ran pryd mae'r cymorth ar gael (ymweliad gan 'drefnydd' lleol, er enghraifft), ac yn ystyrlon, yn y ffaith bod y cymorth sydd ar gael yn ymateb i angen lleol. Felly, mae'n rhaid i adnoddau ychwanegol fod ar gael er mwyn gwella ac ehangu ansawdd a chysondeb y cymorth sydd ar gael ledled Cymru.

Un o'r prif themâu a gododd drwy'r ymchwil oedd yr angen am lefel gynaliadwy o gyllid ar sefydliadau. Mewn rhai achosion, gwnaeth yr awdurdod lleol dynnu ei gymorth ariannol yn ôl i sefydliadau gwirfoddol lleol ar fyr rybudd dros ychydig o wythnosau. Dylai Cytundebau Lefel Gwasanaeth sy'n bodoli eisoes a rhai newydd fod yn gadarn a dylent gael eu hadolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau rhywfaint o sicrwydd cyllid.

Nododd yr ymchwil fod rôl y rheolwr prosiect yn hollbwysig i lwyddiant sefydliadau gwirfoddol. Bydd rhaglen hyfforddiant ar arweinyddiaeth strategol yn ddefnyddiol i arweinwyr er mwyn eu helpu i ddod i delerau ag amrywiol ofynion yr hinsawdd economaidd-gymdeithasol sydd ohoni.

Mae sefydliadau gwirfoddol lleol bach yn awyddus i ddangos i'w cymunedau eu bod yn cynnig gwasanaeth lefel uchel. Mae gofynion sylweddol ar y sefydliadau hyn o ran sut i ddangos ansawdd o'r fath. Mae cadw cofnodion, achredu a diogelu oll yn hanfodol ond maent yn gosod beichiau o ran amser sy'n golygu na all y staff sy'n ymgymryd â'r gwaith hwnnw fod yn fwy rhagweithiol, er enghraifft, i godi arian. Byddai ymgais i ddatblygu systemau symlach sy'n diwallu anghenion casglu data yn ddatblygiad cadarnhaol yn hytrach na chreu biwrocratiaeth ddiangen i ymarferwyr. Dylai'r sector ddatblygu casgliad o adnoddau y mae'n hawdd cael gafael arnynt ac sy'n cael eu diweddaru'n flynyddol er mwyn rhoi gwybodaeth a chyngor ymarferol i sefydliadau gwirfoddol bach ynglŷn ag arfer gorau wrth redeg sefydliadau gwaith ieuenctid gwirfoddol bach.

**Nodi'r hyn a fyddai'n helpu sefydliadau gwaith ieuenctid gwirfoddol ac awdurdodau lleol i gydweithio'n agosach**

Mae'r Grŵp Cyfeirio Gweinidogol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid wedi nodi bod angen ffordd radical ymlaen ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid yng Nghymru. Mae llawer o'r enghreifftiau o arfer da a nodwyd yn yr ymchwil ac yn y sampl gynrychioliadol isod yn gyson â'r weledigaeth hon gan y Grŵp Cyfeirio Gweinidogol sydd wedi argymell y dylai'r ffordd ymlaen ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid yng Nghymru gynnwys yr amcanion canlynol:

- Dylai cyfranogiad pobl ifanc fod wrth wraidd y broses.
- Mae dull rhanbarthol o weithredu yn bwysig.
- Mae angen ymrwymiad hirdymor.
- Mae angen cydweithio

Ceir sawl enghraifft o sefydliadau gwaith ieuenctid gwirfoddol ac awdurdodau lleol yn cydweithio’n agos. Mae’n rhaid i’r enghreifftiau hyn o arfer gorau yn y maes hwn gael eu casglu, eu rhannu a’u dathlu.

Dylai rhaglen genedlaethol o hyfforddiant ar y cyd i arweinwyr gwaith ieuenctid a rheolwyr ddiwallu anghenion y sectorau gwaith ieuenctid statudol a gwirfoddol. Bydd cyfres o ddigwyddiadau rhwydweithio lleol yn helpu sefydliadau gwaith ieuenctid gwirfoddol ac a’r awdurdodau lleol i gydweithio’n agosach. Mae’r elfen hon o’r gwaith yn hollbwysig i feithrin cydberthnasau gwaith cadarn a datblygu gweledigaeth leol a rennir i bobl ifanc.

Byddai datganiad polisi cenedlaethol am gydweithio rhwng y sectorau yn helpu sefydliadau i gydweithio ymhellach. Gallai’r polisi hwn gynnwys canllawiau ar arfer da mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth a chynnwys enghreifftiau o arfer da o weithio mewn partneriaeth a’u heffaith ar fywydau pobl ifanc.

## A oes unrhyw fylchau?

Mae *Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru 2014-2018* yn cydnabod bod angen i’r sector gwaith ieuenctid statudol a gwirfoddol gydweithio’n agosach ar lefel awdurdod lleol. Bu cydnabyddiaeth gyffredinol bod ymarfer gwaith ieuenctid yn newid a bod y gofynion ar staff yn newid o ganlyniad i hynny. Nododd un cyfranogwr fod ‘ein hanghenion hyfforddiant (y sector gwirfoddol) yr un fath ag anghenion y sector statudol. Rydym ar ddeall nad oes unrhyw arian i’w roi ond gellid cynnig hyfforddiant’. Mae Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol wedi nodi bod angen cyllid craidd ar y sector gwirfoddol er mwyn sicrhau y gall ddatblygu cyfleoedd i bobl ifanc a chefnogi ei wirfoddolwyr (Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol, 2016).

Bwlch 1. Mae angen rhywfaint o gyllid craidd ar sefydliadau cenedlaethol a lleol fel ei gilydd er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyflawni canlyniadau i bobl ifanc. Pan na fydd y cyllid craidd hwn ar gael neu pan gaiff ei dynnu’n ôl, yn aml iawn gwelir y ddarpariaeth leol yn diflannu.

Bwlch 2. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddull na fforwm strategol i’r sectorau statudol a gwirfoddol drafod a chynllunio gweledigaeth ar y cyd ar gyfer darparu gwasanaethau ieuenctid ledled Cymru.

Bwlch 3. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddatganiad polisi sy’n nodi’n fanwl sut y dylai awdurdodau lleol weithio gyda’r sector gwirfoddol.

Bwlch 4. Ceir diffyg cysondeb yn y cymorth i’r sector gwirfoddol ledled Cymru.

Bwlch 5. Mae diffyg ymwybyddiaeth ymhlith sefydliadau gwirfoddol lleol ynglŷn â ble a sut y mae polisi gwaith ieuenctid yn cael ei ddatblygu.

Bwlch 6. Yr angen am gyfarwyddiadau a chanllawiau cadarn iawn i ysgolion mewn perthynas â rôl bosibl y sector gwirfoddol lleol.

Bwlch 7. Nid oes map cyflawn o’r cymorth ariannol presennol i’r sector gwirfoddol ledled Cymru, er mwyn asesu manylion y cymorth ac ystyried yr effaith a gafwyd.

Bwlch 8. Ceir diffyg eglurder ynglŷn â'r amrywiol strwythurau cynllunio lleol i blant a phobl ifanc. Dylid mynd i'r afael â hyn ar fyrder wrth inni symud ymlaen i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Bwlch 9. Ar hyn o bryd ceir bwlch yn yr ymwybyddiaeth ymhlith sefydliadau gwirfoddol lleol o'r ffordd orau y gallant baratoi i fod yn fwy llwyddiannus mewn trefniadau tendro lleol.

Bwlch 10. Mae'r archwiliad o Waith Ieuenctid yn cynnwys Cytundebau Lefel Gwasanaeth ond nid yw'n cydnabod yr hyn a ddarperir gan y sector gwirfoddol nac isgontractwyr eraill. Mae hyn yn achos pryder i ddarparwyr yn y sector gwirfoddol.

Bwlch 11. Ceir bylchau o ran cynaliadwyedd llawer o'r trefniadau cyllido. Mae angen i arweinwyr lleol ystyried hyn yng ngoleuni asesiadau o anghenion lleol.

Bwlch 12. Cafwyd tystiolaeth anecdotaidd sy'n awgrymu nad yw rhai clybiau ieuenctid mor gynhwysol ag y gallent fod o ran sicrhau y gall pobl ifanc ag anabledd fanteisio ar y ddarpariaeth. Gallai'r cymorth cywir i glwb, a chan glwb, wneud gwelliannau sylweddol o ran ansawdd bywyd pobl ifanc, er enghraifft, pobl ifanc ag anabledd.

Bwlch 13. Mae gwirfoddolwyr yn gwneud cryn dipyn o waith i'w cymunedau. Mae cefnogaeth anffurfiol gan gymheiriaid a chydnabyddiaeth o'r cannoedd o oriau y mae gwirfoddolwyr yn eu cyfrannu i'w cymunedau bob blwyddyn yn bwysig. Fodd bynnag, nid oes digon o gydnabyddiaeth nac ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd.

Bwlch 14. Mae'r sector yn gwella o ran rhannu arfer cyfredol, er enghraifft, drwy'r Gwobrau Rhagoriaeth mewn Gwaith Ieuenctid yng Nghymru, ond nid yw'n ddigon da o ran nodi a rhannu gwybodaeth yn ddigon eang neu reolaidd.

**Yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, beth y gellir ei wneud i sicrhau cydweitho agosach a gwell canlyniadau i bobl ifanc?**

Yn genedlaethol – mae angen corff sy'n dwyn ynghyd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau strategol yn y sector gwirfoddol a'r sector statudol i gynrychioli pobl ifanc Cymru a'u buddiannau, er mwyn rhannu gwybodaeth am arfer gorau a datblygu gweledigaeth a rennir ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru. Mae'n rhaid i Gynghrair Gwaith Ieuenctid Cymru gael ei atgyfnerthu.

Dylai'r sector weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu datganiad polisi ynglŷn â threfniadau cyllido ar gyfer y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol. Dylai'r archwiliad blynyddol o waith ieuenctid ystyried cyfraniad y sector gwirfoddol fel isgontractwyr yn y gwaith o sicrhau canlyniadau i bobl ifanc.

Mae gwybodaeth briodol ac amserol yn hollbwysig ar bob lefel ac roedd yn amlwg bod aelodaeth sefydliadau yn y sector gwirfoddol o Gyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol o gymorth mawr yn hynny o beth. Mae hwn yn gryfder a dylai cymorth fod yn fwy cyson ledled Cymru.

Mae'n rhaid i'r sector wneud rhagor i nodi arfer da cyfredol o ran gweithio mewn partneriaeth a'i rannu drwy'r sector cyfan yng Nghymru.

Yn lleol – mae mapio'n allweddol, gan nodi bylchau a meithrin gallu comisiynwyr a chyrff cyflawni fel ei gilydd. Mae comisiynu neu ddarparu'r gwasanaethau cywir er budd pobl ifanc yn lleol yn hollbwysig. Mae gan bobl ifanc yr hawl i gael eu cynnwys pan gaiff y penderfyniadau hyn eu gwneud.

Mae gan y sector gwirfoddol y gallu i arallgyfeirio'n gyflym ac mae hwn yn gryfder strategol i'r sector. Gellid gwneud rhagor i fanteisio i'r eithaf ar y gallu hwn. Nododd cyfranogwyr y sector gwirfoddol hefyd y gallai'r ffordd y dyrennir y Grant Cynnal Refeniw fod yn fwy tryloyw ledled Cymru.

Awgrymodd cyfranogwyr fod gormod o ffactorau sy'n ysgogi'r gwaith a bod angen prosesau gwneud penderfyniadau strategol ynglŷn â'r busnes craidd gwirioneddol a'r ffordd ymlaen o ran polisi ac ymarfer yn y sector yn genedlaethol ac yn lleol. Mae hwn yn ddilema lleol ond yn un y gellid mynd i'r afael ag ef yn rhannol drwy ddull gweithredu cenedlaethol, cydgysylltiedig.

**Argymhellion.**
Mae'r argymhellion o'r astudiaeth hon yn deillio o ddadansoddiad o ganfyddiadau'r ymchwil. Ar gyfer rhai o'r argymhellion, nid oes angen adnoddau ychwanegol, dim ond addasu arferion gwaith presennol. Mae i argymhellion eraill oblygiadau o ran adnoddau a dylid ystyried eu costau a'u manteision posibl. Daw'r darn isod o'r brif astudiaeth gyda'r prif argymhellion wedi'u nodi. Mae Tabl 2 yn cynnwys rhestr fwy cynhwysfawr o'r argymhellion.

Hyfforddiant arweinyddiaeth strategol i arweinwyr a rheolwyr yn y sector gwirfoddol a statudol. Gallai elfennau o'r hyfforddiant gael eu cyflwyno gyda'i gilydd i'r ddau sector er mwyn helpu i hwyluso gweledigaeth a rennir.

Bydd rhagor o gyfleoedd os byddai'r gwasanaeth ieuenctid yn ymgysylltu'n fwy effeithiol â Diwydiant/Cyflogwyr a allai fuddsoddi mewn addysg gymdeithasol. Gallai hyn gynnig cyfleoedd gwirioneddol werthfawr ar gyfer dysgu anffurfiol a dysgu heb fod yn ffurfiol yn y gweithle.

Datblygu llawlyfr ymarferol, gwefan ac ap ffôn symudol a fyddai'n helpu sefydliadau gwirfoddol lleol i nodi arfer da a diogel ac fel cymorth i sefydliadau newydd sy'n cael eu sefydlu.

Dylid sefydlu grant i helpu'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol lleol i rannu arfer da ym maes gwaith ieuenctid, gweithio fel dolen gyswllt rhwng y sector statudol a'r sector gwirfoddol a rhoi cymorth hollbwysig i sefydliadau cymunedol bach.

Datblygu e-gyfnodolyn i bobl ifanc sy'n nodi ac yn rhannu arfer da drwy'r sector cyfan, ac sydd hefyd yn sicrhau bod y prif negeseuon yn cyrraedd y gynulleidfa fwyaf bosibl ar y cyfryngau cymdeithasol.

Mae'r ymchwil hon wedi nodi trefniadau comisiynu sydd wedi bod ar waith yn llwyddiannus iawn ers deng mlynedd. Gallai ardaloedd eraill fod yn datblygu dull strategol o gomisiynu. Dylai ymchwil i effaith y trefniadau comisiynu presennol gael ei rhannu er mwyn osgoi oedi a dyblygu (Gweler Atodiad 2).

Mae angen i sefydliadau gwaith ieuenctid gwirfoddol a gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol gydweithio'n agosach a chydweithredu mwy. Dylai awdurdodau lleol weithio mewn ffordd gadarnhaol a chydweithredol â sefydliadau gwirfoddol er mwyn helpu i sicrhau bod y gwaith ieuenctid a ddarperir yn diwallu anghenion lleol ac y gwneir y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael. (Llywodraeth Cymru, 2014).

Caiff ymwybyddiaeth o'r ymchwil a'r tueddiadau diweddaraf ei phrif ffrydio o fewn y sector a thrwy'r sector cyfan. Bydd hyn yn atgyfnerthu ymarfer, yn gwella canlyniadau ac yn arwain at wasanaeth o ansawdd gwell i bobl ifanc. Dylid cynnal cyfres o ddosbarthiadau meistr ar waith ieuenctid ledled Cymru. Bydd hyn yn datblygu diwylliant dysgu, yn hytrach na diwylliant gwneud yn unig, ymhellach.

**Tabl 2. Argymhellion ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol ac yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy.**

| Lefel strwythurol | Tymor Byr | Tymor Canolig | Tymor Hwy |
|---|---|---|---|
| Lefel sefydliadol | Cynnal arfarniad cyflym o'u parodrwydd i gydweithredu ar draws sectorau. Nodi'n fanwl eu cyfraniad unigryw i fywyd lleol. | Cydweithio i ddatblygu cynllun cyllido gwaith ieuenctid/gwasanaeth ieuenctid lleol. | Dylai sefydliadau lleol geisio nodi eu cryfderau a bod yn rhagweithiol o ran llunio hyfforddiant DPP a'i gynnig i'r sector. Gallai hyn fod yn ffynhonnell ychwanegol o incwm. |
| | | Sesiynau cyfnewid sgiliau ac adnoddau lleol gydag elfen gymdeithasol (gallai hyn gael ei hwyluso drwy grant bach). | |
| Lefel leol/ranbarthol | Cynnal archwiliad lleol o ddarpariaeth ac anghenion er mwyn cadarnhau graddau'r gwaith ieuenctid ym mhob ardal ac anghenion pobl ifanc yn lleol. | Ar lefel awdurdod lleol, sefydlu fforwm traws-sector i ddatblygu dull cyffredin o gydweithredu i bob ardal. | Ym mhob ardal, datblygu cynllun a rennir er mwyn sicrhau osgoi dyblygu gwaith a sicrhau bod pobl ifanc yn cael y canlyniadau gorau posibl. |
| | Datblygu cynllun datblygu'r gweithlu lleol/rhanbarthol sy'n cynnig hyfforddiant priodol y tu allan i oriau swyddfa ac mewn ymateb i ymgynghoriad â rhanddeiliaid. | Sicrhau bod mynediad at gynlluniau hyfforddiant lleol ar gael yn gyffredinol i randdeiliaid mewn modd amserol. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Dylai pob Prif Swyddog Ieuenctid drefnu fforwm rheolaidd â darparwyr yn y sector gwirfoddol lleol er mwyn rhannu gwybodaeth ynglŷn ag anghenion pobl ifanc a chymunedau a gweithio gyda'r Cyngor Gwirfoddoli Sirol lleol i roi cyhoeddusrwydd i gynlluniau a sianeli cyllido lleol. Nod hyn yw creu partneriaethau gwell drwy ddealltwriaeth well o gyd-destun ei gilydd. | | |
| Lefel genedlaethol | Dylai Llywodraeth Cymru geisio datblygu strategaeth gyllido sydd o leiaf yn seiliedig ar gylch cyllido tair blynedd lle bynnag y bo modd. | Dylai cyllidwyr geisio lleihau'r baich adrodd sy'n angenrheidiol ar gyfer darpariaeth wedi'i chyllido, hyd y gellir. | Mae strategaethau gwaith ieuenctid cenedlaethol yn y dyfodol yn cynnwys canllaw clir ar gydweithredu rhwng y sector gwirfoddol a'r sector a gynhelir, a pholisi ar gydweithio. |
| | Dylai Llywodraeth Cymru ystyried comisiynu ymchwil i gostau, manteision ac effaith darnau penodol o waith a rhoi cyhoeddusrwydd i arfer gorau pan gaiff ei nodi. | Dylai'r sector nodi sefydliad arweiniol i gynorthwyo darparwyr yn y sector gwirfoddol gyda gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. | Dylai strategaethau gwaith ieuenctid cenedlaethol yn y dyfodol gynnwys targed CAMPUS ar gyfer dyrannu cyllid i'r sector gwirfoddol. |
| | Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu'r gwaith o ddatblygu llawlyfr ar waith ieuenctid i unigolion a darparwyr annibynnol lleol sy'n cynnwys manylion gofynion o ran y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, Iechyd a Diogelwch, Llywodraethu. | Dylai'r archwiliad blynyddol o waith ieuenctid ei gwneud yn ofynnol i ymatebwyr nodi canlyniadau a gyfrannwyd gan y sector gwirfoddol ac isgontractwyr eraill. | |
| | Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu'r gwaith o ddatblygu canllawiau arfer da blynyddol i wella ymarfer er budd pobl ifanc a chymunedau. | Dylai Cynghrair Gwaith Ieuenctid Cymru gael ei atgyfnerthu i'w gwneud yn bosibl i ddull a blaenoriaethau a rennir ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru gael eu datblygu. | |

**Crynodeb**
Hoffem ddiolch i'r holl staff a gwirfoddolwyr a roddodd o'u hamser i gymryd rhan yn yr astudiaeth hon. Nododd ein hymchwil fod rhanddeiliaid yn y sector gwirfoddol yn ymwybodol o realiti hinsawdd ariannol anodd iawn yn y sector cyhoeddus ehangach. Mae'r tîm wedi cynnal cyfweliadau â rhanddeiliaid o bob rhanbarth ledled Cymru – pedwar cyfweliad i gyd. Hefyd, cynhaliwyd un grŵp ffocws â 12 o gynrychiolwyr o sefydliadau gwirfoddol cenedlaethol a lleol yn y gymuned o bob rhan o Gymru. Roedd y cyfranogwyr yn cynnwys cynrychiolwyr o gynghorau gwirfoddol lleol, Prif Swyddogion Ieuenctid, a darparwyr gwaith ieuenctid cymunedol bach. Cynhaliwyd un cyfweliad yn Gymraeg. Dengys y canlyniadau lawer o enghreifftiau da iawn o gydweithredu sy'n cynnig manteision gwirioneddol i bobl ifanc yng Nghymru. Mae rhanddeiliaid yn deall bod newidiadau ym maes gwaith ieuenctid yn creu gofynion newydd ar y gweithlu a bod angen i hyfforddiant gwaith ieuenctid gael ei gynnig ar sail gyfartal drwy'r sector cyfan. Ystyrir bod arweinyddiaeth yn hollbwysig i greu naws a diwylliant a chynnig modelau arfer da clir o ran cydweithredu – mae angen i'r sectorau ddatblygu ffordd o gydweithio yn hytrach na sefyllfa lle mae'r naill yn oruwch na'r llall. Mae gan y sector gwaith ieuenctid a gynhelir a'r sector gwirfoddol yng Nghymru gryfderau sylweddol y gellir adeiladu arnynt drwy gefnogi'r argymhellion a geir yn yr adroddiad hwn.

Atodiad 1: Dadansoddiad PEST

| **Gwleidyddol** | **Economaidd** |
|---|---|
| Mae pobl ifanc yn uchel ar yr agenda wleidyddol, mae gwaith ieuenctid mewn sefyllfa dda i chwarae rhan weithredol er mwyn dylanwadu ar bolisi yn y dyfodol.<br><br>Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cynnig cyfle strategol i waith ieuenctid ymateb yn rhagweithiol.<br><br>Yn aml, ynghlwm wrth y cyllid y mae targedau sy'n dylanwadu at ddull egwyddorol o ymgymryd â gwaith ieuenctid, a all wanhau ei gryfderau.<br><br>Dylai gweithwyr ieuenctid gydweithio'n agos a pheidio ag ofni gweithio gyda'u haelodau etholedig lleol a rhannu gwybodaeth ynglŷn â'u gwaith a'i effaith.<br><br>Gyda chryn sylw yn y cyfryngau i drafferthion byd-eang dylai'r gwasanaeth ieuenctid ymateb er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn cael gwybodaeth am realiti digwyddiadau byd-eang a'r cysyniad o risgiau gwirioneddol. | Rydym yn rhan o wlad gyfoethog ond nid yw'r cyfoeth hwn yn cael ei drosi'n lefelau da o lesiant i bobl ifanc.<br><br>Mae cyllidebau gwaith ieuenctid yn cael eu lleihau. Mae'r cyllid i'r sector elusennol yn cael ei leihau.<br><br>Mae'r hinsawdd ariannol yn gwneud pontio tuag at fyd oedolion yn llwyddiannus yn fwy anodd i bobl ifanc. Gall gwaith ieuenctid ymateb i hynny.<br><br>Yn aml, mae'n rhaid i sefydliadau fynd ar drywydd cyllid er mwyn sicrhau eu cynaliadwyedd ac mae hyn yn gwanhau effaith eu gwaith ieuenctid ac yn tynnu eu sylw oddi wrth y busnes craidd, sy'n gylch anfad.<br><br>Mae gweithwyr ieuenctid yn cynnig cyfalaf cymdeithasol amhrisiadwy i bobl ifanc yn ystod y cyfnod pontio tuag at fyd oedolion. |
| **Cymdeithasol** | **Technolegol** |
| Mae cymdeithas yn newid ar gyfradd nas gwelwyd erioed o'r blaen. Mae angen i'r gwasanaeth ieuenctid edrych ymlaen at gyfleoedd yn y dyfodol, er enghraifft, gweithio gyda chyflogwyr yn uniongyrchol, ystyried prentisiaethau.<br><br>O ran cynnydd cyflym mewn pryder cymdeithasol ymhlith pobl ifanc, gallai'r gwasanaeth ieuenctid fod yn rhagweld hyn ac yn ymateb yn gadarn fel y mae wedi'i wneud eisoes gyda chynlluniau cerdyn-c. | Mae angen i'r gwasanaeth ddefnyddio technoleg newydd ond heb fod yn gaeth iddi. Mae angen iddo fod yn strategol wrth ei defnyddio.<br><br>Dylai'r gwasanaeth ddatblygu gweledigaeth ar gyfer y ffordd y mae'n gweithio gyda thechnoleg er mwyn manteisio i'r eithaf ar obsesiwn pobl ifanc gyda hi ond dylai hefyd fod yn glir ynglŷn â sut y gall gwaith ieuenctid ategu defnydd pobl ifanc o'r dechnoleg.<br><br>Byddai ymchwil yn nodi arfer gorau |

| | |
|---|---|
| Dylai'r gwasaneth ieuenctid roi mwy o sylw i ddatblygu proffil yn y cyfryngau cymdeithasol. Mae arddull yr hyn a gynigir yn hollbwysig.<br><br>Gordewdra a'i ganlyniadau – gall y gwasanaeth ieuenctid chwarae rhan sylweddol yn y gwaith o annog ffordd iach o fyw. | cyfredol ledled y byd mewn technoleg a phobl ifanc.<br><br>Gallai'r gwasanaeth ddefnyddio ei adnoddau i alluogi pobl ifanc i ddatblygu ymdeimlad o ddinasyddiaeth fyd-eang. |

Atodiad 2: Astudiaethau Achos

Astudiaeth Achos 1. Mewn un ardal gallai'r sector gwaith ieuenctid a gynhelir nodi tair partneriaeth fel 'gwasanaethau a gomisiynwyd'. Ymhlith nodweddion pwysig y trefniadau hyn roedd lefelau uchel o ymddiriedaeth a oedd wedi'i meithrin dros flynyddoedd lawer o gydweithio. Mae'r trefniadau hyn yn addas i'r ddau barti a chânt eu rheoli drwy broses drylwyr o adroddiadau chwarterol a blynyddol. Mae gan y comisiynydd syniad clir o'r hyn sydd ei angen ac mae'n sicrhau bod y bartneriaeth yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Mae trefniadau adrodd clir ar waith i fonitro'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu a'i effaith.

Astudiaeth Achos 2. Mewn un ardal mae gan wasanaeth ieuenctid a gynhelir bartneriaethau cydweithredol sy'n ei alluogi i ddarparu gwasanaeth i bobl ifanc leol yn fwy effeithiol nag y gallai pe bai'n gweithio ar ei ben ei hun. Mae hyn yn amlwg drwy'r naill bartner yn cynnig adeilad lle y gellir gweithio a'r llall yn cynnig arbenigedd y gweithwyr ieuenctid. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio gydag ymddiriedolaeth elusennol i ddatblygu rhaglen o waith ieuenctid sy'n datblygu sgiliau llythrennedd ymhlith pobl ifanc yn eu harddegau cynnar a gyda sefydliad tai i gyflwyno mathau o addysg i ategu addysg ffurfiol e.e. cymwysterau BTEC ac ABCh.

Astudiaeth Achos 3. Mewn un ardal wledig mae'r cyngor gwirfoddol sirol yn cyflogi hwylusydd plant a phobl ifanc i hwyluso rhwydweithio a sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cysylltu â threfniadau cynllunio lleol a ledled y sir. Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd cyfathrebu da yn y sector. Yn yr ardal hon ceir perthynas waith ardderchog rhwng y Prif Swyddog Ieuenctid a'r Cyngor Gwirfoddol Sirol ac ymrwymiad i ddatblygu gweledigaeth a rennir. Mae hon yn enghraifft amlwg o arfer da.

Astudiaeth Achos 4. Mewn un gymuned mae'r sector gwaith ieuenctid statudol a gwirfoddol yn rhannu adeiladau ac yn ategu gweithgareddau ei gilydd. Gall y ddau bartner ddenu cyllid o ffynonellau gwahanol ac mae ganddynt broffiliau gwahanol yn y gymuned. Mae'r staff yn glir eu meddwl eu bod yn gweithio ar sail rhoi pobl ifanc yn gyntaf. Mae'n amlwg nad yw pobl ifanc yn poeni pwy sy'n darparu'r gwasanaeth mewn gwirionedd. Y peth pwysig iddynt hwy yw bod y gwasanaeth cywir yn cael ei ddarparu'n dda ac ar amser.